Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU
a gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Mercher 2 Mawrth 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Odwyn Davies, Lloyd Edwards, Keith Evans, Alun Lloyd Jones, Lynford Thomas ac Ivor Williams

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd a Catrin Miles (Aelodau Cabinet)

Swyddogion yn bresennol: Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol -Ysgolion; Miss Nia James, Rheolwr Corfforaethol - Adnoddau Dysgu; Mr Allan Bailey, Rheolwr Rhaglen; Ms Gillian Evans, Rheolwr Corfforaethol – ADY, Cynhwysiant a Llesiant; Mrs Carys Davies, Rheolwr Strategol Gofal Plant; Mrs Meinir Paske, Swyddog Cymorth Busnes Gofal Plant; Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar; Mr Carwyn Young, Rheolwr Corfforaethol – Canolfannau Llesiant, Porth Cymorth Cynnar; Mr Alwyn Davies, Rheolwr Pobl Ifanc Actif; Mr John Callow, Rheolwr Corfforaethol - Camddefnyddio Sylweddau; Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau; Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:00am-12:55pm)

1 Personol

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y plant a oedd yn ddioddef o achos y rhyfel yn Wcráin a'r effaith ar eu hiechyd a'u lles seicolegol. Ychwanegodd nad oedd modd iddynt fynychu'r ysgol ar yr adeg ofnadwy hon.

2 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Endaf Edwards, Paul Hinge a Mark Strong am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu

Dim.

4 Prosiectau Band B Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a Chyllid Grant Ychwanegol

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Prosiectau Band B Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a Chyllid Grant Ychwanegol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn diweddaru'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran Prosiectau Band B Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a'r Prosiectau a gyflawnwyd gan ddefnyddio Cyllid Grant ychwanegol. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cefndir a'r sefyllfa bresennol o ran Ysgol Uwchradd Aberteifi, Canolfan y Môr, Ysgol Gynradd Aberteifi, Ysgol Dyffryn Aeron a Grant Cyfalaf y Gymraeg.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

5 Dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn diweddaru'r Pwyllgor am egwyddorion a disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion. Amlinellwyd y wybodaeth ganlynol a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad:-

- Gwybodaeth gefndir
- Y sefyllfa bresennol
- Datganiad Gweledigaeth ADY Ceredigion
- Nodau ADY Ceredigion
- Diben dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Ceredigion
- Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-

(ii) mabwysiadu cynnwys dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion;
(ii) bod unrhyw sylwadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel gwelliannau i'r Cynllun, ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet er gwybodaeth
(iii) bod adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wneir o ran Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion yn cael ei gyflwyno i'r Ysgolion, i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet.

6 Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-2027

Ystyriwyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-2027. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn hysbysu'r Aelodau o'r sefyllfa bresennol ynghylch y ddarpariaeth gofal plant yng Ngheredigion. Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr Asesiad Drafft o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022 – 2027 gan roi argymhellion cyn y byddai'r Cyngor yn ymgynghori â'r cyhoedd. Dywedwyd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel y gallai ei gymeradwyo. Ar ôl hynny, byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2022 er mwyn cael argymhellion y Gweinidog. Rhoddwyd cyflwyniad pwynt pŵer o'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, fel a ganlyn:

- Y gofynion deddfwriaethol
- Y dull gweithredu
- Map o Geredigion
- Llefydd Gofal Plant
- Gostyngiad mewn llefydd
- Y themâu a nodwyd
- Gwella'r ddarpariaeth / Recriwtio / yr Economi a Chynaliadwyedd / Tai / Anghenion Dysgu Ychwanegol / Y Gymraeg / Rhannu gwybodaeth
- Yr hyn na allwn ni ei wneud
- Y camau nesaf

Yn dilyn cwestiynau a sylwadau o'r llawr, CYTUNWYD i wneud y canlynol:-

(i) cymeradwyo canfyddiadau Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-2027
(ii) cymeradwyo datblygu'r camau gweithredu ac unrhyw Grwpiau Gorchwyl a Gorffen dilynol er mwyn rhoi sylw i'r meysydd lle y gwelir annigonolrwydd yn ôl yr adroddiad.
(iii) defnyddio'r adnoddau sy'n bodoli eisoes a chyllid grant er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau a amlygwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a cheisio datblygu gofal plant ychwanegol yn yr ardaloedd a nodwyd, yn unol â'r Cynllun Gweithredu.
(v) ystyried unrhyw anghenion o ran gofal plant wrth ddatblygu safleoedd ar gyfer ysgolion newydd neu wrth ddatblygu'r safleoedd presennol.

Roedd y Cynghorydd Alun Lloyd Jones yn dymuno i'r cofnodion nodi bod ganddo bryder ynghylch y diffyg darpariaeth gofal plant yn y Sir a'i fod o'r farn bod angen rhoi sylw i hyn ar frys heb ragor o ymgynghori.

7 **Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ceredigion 2022 (Drafft)**
Ystyriwyd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ceredigion 2022. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau gael y cyfle i drafod y mater fel y gallai'r Pwyllgor gyfrannu at yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 cyn y byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am y cefndir a'r diweddaraf am yr asesiad.

Yn dilyn cwestiynau a sylwadau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol a'r gwaith sydd eto i'w wneud o ran Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ceredigion 2022.

8 **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion**
Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn darparu gwybodaeth i'r Aelodau am waith y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid.

Yn dilyn cwestiynau a sylwadau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi gwaith y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid.

9 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 yn rhai cywir.

10 Unrhyw Fater Arall
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn e-bost oddi wrth y Pwyllgor Trwyddedu yn gofyn a fyddai modd i'r Pwyllgor Cymunedau sy'n Dysgu o dan Unrhyw Fater Arall ystyried y llygredd aer a achosir pan fo rhieni yn gadael i injans eu ceir redeg ac yn defnyddio eu ffonau symudol tra bo eu cerbyd yn sefyll yn ei unfan. Wrth ymateb, dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion fod posteri wedi'u creu a fyddai'n cael eu rhannu â

phob un o'r rhieni / gwarcheidwaid i'w haddysgu nhw am yr angen i roi'r gorau i hyn. Byddai'r pwnc hefyd yn cael ei gynnwys fel eitem ar agenda cyfarfodydd cyrff llywodraethol yr ysgolion er mwyn i'r llywodraethwyr ei ystyried.

Hefyd, mynegodd y Cynghorydd Marc Davies bryderon ynghylch y ffaith bod rhieni yn parcio y tu allan i Ysgol Gynradd Aberaeron i ollwng eu plant. Dywedodd nad oedd angen iddynt wneud hyn gan fod llwybr troed newydd wedi'i greu a oedd yn mynd o Benmorfa i'r ysgol. Gofynnodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion i'r Cynghorwyr rannu unrhyw bryderon penodol â hi.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____